# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 01-06

### Dyddiad y cyfarfod: 3 Mai 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.00
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Damien O'Brien | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Sarah Canning | Uned Materion Cyfansoddiadol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Leanne Hatcher | Dirprwy Glerc |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |
| Graham Winter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Kirsty Williams. Roedd Eleanor Burnham yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Estynnodd y Pwyllgor longyfarchiadau i Kirsty Williams ar enedigaeth ei baban yn ddiweddar.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.4 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

1.5 Yn unol â Rheol Sefydlog 8.24, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar 18 Mai tra’i fod yn ystyried yr argymhellion cychwynnol ar gyfer ei adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Papur: EIN(2) 01-06 (p.1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ei adroddiad.

## Pwyntiau gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i ddarparu manylion ynghylch faint o’r £2m a wariwyd gan Raglen Blaenau’r Cymoedd ar becyn o brosiectau ‘canlyniadau cyflym’ oedd ar welliannau amgylcheddol.
- O ran symleiddio'r asiantaethau cymorth menter yn dilyn uno'r CCNC â'r Llywodraeth, cytunodd Gareth Hall i ddarparu'r targedau a bennwyd ar gyfer eleni (o Ebrill '06) ymlaen o gymharu â llynedd. Hefyd cytunodd Gareth Hall i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ar effaith y newidiadau hyn ar yr asiantaethau o dan sylw.

## Eitem 3: Y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol

Papur: EIN(2) 01-06 (p.2)
Papur: EIN(2) 01-06 (p.3)
Papur: EIN(2) 01-06 (p.4)

3.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad gan swyddogion.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Bydd y Clerc yn drafftio ymateb i ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn ei ddosbarthu i Aelodau roi eu sylwadau arno.

## Eitem 4: Y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol

Papur: EIN(2) 01-06 (p.5)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Bydd y Clerc yn drafftio llythyr at Weinidog y DU yn crynhoi sylwadau'r Pwyllgor.
- Cytunodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau a newidiadau i'r mesur.

## Eitem 5: Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau: Rhaglen Is-ddeddfwriaeth

Papur: EIN(2) 01-06 (p.6)

5.1 Nododd y Pwyllgor y Rhaglen Is-ddeddfwriaeth.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau Taliadau atal Tagfeydd i graffu arnynt.
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am yr eitemau a nodwyd.

## Eitem 6: Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

Papur: EIN(2) 01-06 (p.7)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Drafft.

## Eitem 7: Blaenraglen Waith Ddrafft y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ar gyfer 2006- 2007

Papur: EIN(2) 01-06 (p.8)

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith Ddrafft.

## Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papur: EDT(2) 05-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth
Papur: EDT(2) 06-06 – Camau heb eu cymryd

- Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth fel cofnod cywir.

Gwasanaeth y Pwyllgorau